



Lowri Jones

2014106

A scenic view of a lush green landscape. In the foreground, there is a well-maintained garden with various plants, including large pink rose bushes and tall green reeds. A small wooden gate is visible in the garden. Beyond the garden is a wide, green field. In the background, there are rolling green hills covered in dense trees under a clear blue sky.


FY NGARDDD FACH I

Darganfod....

Wel dyma i chi fy ngardd
hudol i, fy nghynefin
bach i. Dewch am dro i
ddarganfod fy ngardd.



Yn wreiddiol mi feddyliais i fyddai angen i mi fynd at Barc Dinefwr sydd ar fy stepen ddrws yn Llandeilo er mwyn gallu gweld y gwir natur yn Sir Gaerfyrddin. Ac er ei fod yn agor llawer o brofiadau llawn natur i mi, sydd wir yn llesol wrth i mi allu archwilio a darganfod yn y parc cenedlaethol yma, mi wnes i ail feddwl ac ail gydio yn fy ngardd fach i yn Ffairfach ger Llandeilo.





Archwilio






Blodau





Pa adar a welwyd yn yr ardd?



Gwelwyd rhan amlaf y Robin Goch, Mwyalchen a Titw Tomos Las yn yr ardd. Dyma'r tri phrif adar bach. Mi roedd y llyfr yn fuddiol iawn i allu dysgu mwy am yr adar bach yma sydd yn ymweld a'r ardd yn ddyddiol.



Gorffennaf




GORFFENNAF.

UN ohonoch, adar cerdd,
Yw fy nghalon innau,
Pan y cwsg y glaswyrdd lwyn
Uwch ei fil cysgodau ;
Pan fo wyneb môr a nef
Fel pe am y glasaf—
Gwae aderyn gân cyn pryd,
Gwae na chân Gorffennaf.

Oni wnaed y fro yn ardd
Heb yr un diffeithwch ?
A phob gardd o fewn y fro'n
Wyllt-dir o brydferthwch ?
Fel y gloyn, claf o serch
Yw fy nghalon innau ;
Gwn pa beth yw cael fy nal
Yn nyrysni'r blodau.

Chwa Gorffennaf ddaw i'm tŷ
Yn y bore melyn,
Gyda neithdar maes a môr
Ar ei lleithiog wefus ;
Onid merch y môr a'r maes
Yw fy nghalon innau ;
Câr fugeilio'r gwenith gwyn,
Câr gyfeillach tonnau.



Barcud Coch
Gwelwyd y
barcud coch yn
hedfan fyny fry,
byddai'r barcud
coch yn cael ei
weld yn aml yn
ystod y dydd.



Cãn y Pili Pala



Pili pala,

Pili pala,

Yn yr ardd,


Yn yr ardd,


Disgyn ar y blodau,

Disgyn ar y blodau,

O mor hardd,

O mor hardd!!





Mefus



Tatws

Tyfu

Ffodus iawn i allu cael y cyfleoedd ar ardal i fynd ati i dyfu llysiau a ffrwythau yn yr ardd.


Tatws a mefus blasus. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i ni fel teulu yn hytrach nag fynd ati i brynu ac yn ychwanegol i hynny byddai llai o wastraff. Hynny yw llai o blastig a llai o becynnau i daflu yn y sbwriel. Ac yn fwy na dim byddai dim plaladdwyr a dim ôl carbon am ei fod yn dod yn syth o'r ardd.



Gwarchod



Gwenyn

A close-up photograph of a bee on a white flower, with a dark green overlay and white text.

Un peth y daeth i'r golwg wrth chwynnu yn yr ardd oedd bod angen i mi arsylwi'r ardd cyn mynd ati i arddio. Mi wnaeth fy merch fy stopio rhag chwynnu'r blodau gwyllt am ei fod wedi arsylwi fod y gwenyn yn mynd at y blodau gwyllt yn hytrach na'r blodau eraill yn yr ardd. Munud neu ddwy oedd angen arna i ddarganfod fod hyn yn wir. Mi rydw i wedi penderfynu gadael y chwynnu dros yr Haf er mwyn galluogi fod y gwenyn yn cael y maethiad cywir ac yn cael ei annog i mewn i'r ardd.

Mae gwenyn yn caru blodau!!!

Fodd bynnag, mae yna fathau arbennig o blanhigyn a blodau y bydd gwenyn yn chwilio amdano. Mae yna, credwch neu beidio, ychydig o wahanol fathau o flodau allan yna sy'n addo neithdar ac yn anffodus yn methu gwneud hyn. Gyda hynny mewn golwg, beth yw rhai o'r blodau gorau sy'n denu gwenyn y gallwch chi ddechrau tyfu heddiw? Mae gwenyn yn caru blodau clasurol fel llygad y dydd, zinnias, blodau'r haul, a llawer mwy.





PENDERFYNON NI I
BLANNU BLODAU HAUL
MEWN POTIAU BLODAU
A'I OSOD O AMGYLCH
YR ARDD A GOBEITHIO
FE WNEITH BLODAU
HAUL DYFU O FEWN YR
WYTHNOSAU NESAF
ER MWYN I'R GWENYN I
FWYNHAU'R ARDD
YCHYDIG YN FWY ETO
DROS YR HAF.



Lafant

Wrth ymchwilio i mewn i ba blanhigion eraill sydd yn dda ar gyfer gwenyn yn yr ardd. Fe benderfynais i a fy mhlant i fynd ati i blannu lafant yn yr ardd cefn. Rydym ni yn ffodus iawn i gael tri phlanhigyn lafant yn yr ardd blaen, felly mi wnaethon ni cymryd cwpwl o wreiddyn a'i symud i'r ardd cefn. Mi arsylwon ni fod yn lawer o wenyn o amgylch y planhigion lafant felly mi roedd hyn yn amlwg yn syniad da i fynd ati i wasgaru'r lafant o amgylch yr ardd.



Mi wnes i a fy mhlant ymchwilio i
mewn i weld a oes mwy i'r
planhigyn lafant. Mae gan lafant
amrywiaeth o fanteision iechyd
pwysig, sy'n cynnwys ei allu i leddfu
straen, gwella hwyliau, hyrwyddo
cwsg da, atal heintiau, lleihau llid, a
phroblemau stumog.

Penderfynwyd pan fyddi hi'n
hwyrach ymlaen yn y flwyddyn
pan fyddai'r planhigion lafant yn
dechrau marw fi fyddan ni yn
archwilio ac yn ymchwilio i weld os
oes modd gwneud hylif lafant, neu
gwaith celf efallai? Ac yn fwy na
dim i fwynhau yr arogl.



Ail-ddefnyddio

Blynyddoedd yn ôl mi wnes i a fy mhlant gwesty trychfilod, roedd y pallet yn dechrau pydru felly mi roedd yn hen bryd i'w ail wneud. Byddai'r hen bren sydd wedi ei phydru ar gael i'w ddefnyddio yn hwyrach ymlaen yn y flwyddyn pan fydd angen coed tân arnom ni i wneud tân.

Gwesty Trychfilod

Fel y gallwch weld yn y lluniau, ei'n westy trychfilod ar waelod yr ardd. Roeddwn yn ffodus iawn i allu ail ddefnyddio deunyddiau oedd yn y garej yn barod. Sydd yn cynnwys y pallet bren, briciau i sefydlu'r gwesty ar slatiau i'r to. Defnyddion ni hen wair a oedd wedi cael ei dorri diwrnodau yn gynt a ffodus iawn i gael gwellt wrth y ffarmwr drws nesaf. Braf oedd gweld y mwynhad ar deimlad o ail gydio yn natur yn fy mhlant ac i mi hefyd.



Gwesty Trychfilod



PA
DRYCHFILOD
A DDAETH I'R
OLWG?



Buwch goch gota



Gwlithen



Neidr gantroed

Malwoden



Mochyn y
Coed



Mwydyn



Mi rannais y holl brofiad gyda fy merch sydd yn 9 mlwydd oed a fy machgen sydd yn 6 mlwydd oed. Braint ac anrhydedd oedd i wir mwynhau'r profiad yma o fynd yn ôl i'r hanfodion. Rydw i wedi mwynhau'r pethau bychain yn ei'n ardd hardd ni. Ffordd arbennig o syml wrth feddwl sut mae bod yn gynaliadwy yn ei'n fywydau ni yma yn Ffairfach, a sut byddai hyn yn gwneud effaith positif i ddyfodol fy mhlant i. Teimlaf fod fy agwedd tuag at anifeiliaid a phlanhigion yr ardd wedi gwir newid a byddai fy ffordd o arddio yn flynyddol yn newid yn gyfan gwbl. Y ffordd syml o fyw ydy'r ffordd fwyaf pwerus a dwi wir yn edrych ymlaen at fod yn fwy cynaliadwy wrth ail-ddefnyddio ac ail-gylchu adnoddau. Diolch yn fawr.

Rhannu